Department for Environment Food & Rural Affairs

Ff: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Dyddiad: 6 Hydref 2025

Annwyl  Ymgynghorai

**Ymgynghoriad ar gais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) am Gyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer yr 'Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) Rolls-Royce' a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited**

Rydym yn gofyn am eich barn ar gais am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar y 'Rolls-Royce SMR' (adweithydd modiwlaidd bach). Mae'r adweithydd hwn wedi'i ddylunio gan Rolls-Royce SMR Limited a gwnaed y cais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA), y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant niwclear sifil yn y DU.

Mae cyfiawnhad yn gam rheoleiddio cynnar y mae'n rhaid ei fodloni cyn y gellir defnyddio math newydd o adweithydd niwclear yn y DU. Mae cyfiawnhad yn pennu'r dosbarth neu'r math o arfer y mae'r arfer arfaethedig yn perthyn iddo, ac yn darparu asesiad lefel uchel ynghylch a yw'r dosbarth neu'r math hwnnw o arfer yn rhoi budd cyffredinol i gymdeithas.

Er mwyn cyfrannu at baratoi dogfen penderfyniad ddrafft gan Defra, rydym yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

- a yw'r arfer arfaethedig yn perthyn i ddosbarth newydd o arfer neu'n un sy'n bodoli'n barod
- a yw'r arfer arfaethedig yn ddosbarth neu'n fath o arfer sydd wedi'i ddiffinio'n briodol ar gyfer penderfyniad cyfiawnhad
- a yw'r wybodaeth yn y cais a'r wybodaeth atodol yn addas i Defra allu gwneud asesiad priodol o fanteision ac anfanteision yr arfer arfaethedig

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â pholisi ynni niwclear ehangach, gan gynnwys lleoli adweithyddion niwclear.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 8 wythnos. Agorodd yr ymgynghoriad ar 6 Hydref 2025 a daw i ben ar 1 Rhagfyr 2025.

Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar Citizen Space: https://consult.defra.gov.uk/nuclear-justification/nuclear-rolls-royce-smr

- Dogfen ymgynghori (mae dogfen Saesneg hefyd ar Citizen Space)
- Llythyr ymgynghori (mae cyfieithiad Saesneg hefyd ar Citizen Space)
- Cais am Gyfiawnhad Rheoleiddiol Cymdeithas y Diwydiant Niwclear ar gyfer Rolls-Royce SMR, gan gynnwys gohebiaeth rhwng Defra a'r ymgeisydd mewn perthynas â'r cais am ragor o wybodaeth
- Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau (mae dogfen Saesneg hefyd ar Citizen Space)

Rydym ni'n croesawu eich barn a'ch safbwyntiau. Os hoffech chi gael copi o'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk.

## Ymatebion

I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur ymgynghori sy'n cael ei ddarparu ar Citizen Space ( mae Citizen Space yn adnodd ymgynghori ar-lein).

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau ar agor am 8 wythnos o 6 Hydref 2025 ymlaen.

Os hoffech chi gael copi o'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk

Dylid cyflwyno ymatebion erbyn 1 Rhagfyr 2025.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau wedi'i lwytho, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet,.

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maen nhw'n eu cynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, pwy arall maen nhw wedi ymgynghori â nhw wrth ddod i'w casgliadau pan fyddan nhw'n ymateb.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei chyhoeddi, neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Rydym yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Dim ond pan fo angen bodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

**Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**
Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn sydd ar gael ar Citizen Space.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, rhowch wybod drwy anfon neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

Diolch am eich cymorth. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni yn RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk.

Yngywir,

Y Tîm Cyfiawnhad Niwclear

**Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig**